

2013 Rhif 16

Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (Cymru) 2013

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Cynllun)

Mae'r Cynllun hwn yn darparu ar gyfer talu grant sy'n dibynnu ar brawf modd ("Grant Dysgu'r Cynulliad") er mwyn helpu i dalu costau astudio, ar gyfer myfyrwyr 19 oed a throsodd sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ac yn dilyn cyrsiau addysg bellach dynodedig yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Medi 2013. Bydd Grant Dysgu'r Cynulliad ar gael i fyfyrwyr cymwys p'un ai yng Nghymru ynteu rhywle arall yn y Deyrnas Unedig y byddant yn dewis astudio.

Daw'r Cynllun i rym ar 1 Medi 2013 ac mae'n gymwys mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Medi 2013 ond cyn 1 Medi 2014.

Bydd Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (Cymru) 2012 (2011 Rhif 32) yn parhau mewn grym mewn perthynas â'r flwyddyn academaidd sy'n cychwyn ar neu ar ôl 1 Medi 2012 ond cyn 1 Medi 2013.

2013 Rhif 16

Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (Cymru) 2013

Mae'r Cynllun hwn yn gweithredu o dan adran 14 o Ddeddf Addysg 2002 ac yn gymwys o ran Blwyddyn Academaidd 2013/2014.

Enwi a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Cynllun hwn yw Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) (Cymru) 2013.

(2) Mae'r Cynllun hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Cynllun hwn—

ystyr “addysg uwch” (*“higher education”*) yw addysg a ddarperir drwy gyfrwng cwrs o unrhyw ddisgrifiad a geir yn Atodlen 6 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988⁽¹⁾;

ystyr “Aelod-wladwriaeth” (*“Member State”*) yw Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd;

ystyr “Blwyddyn Academaidd 2013/2014” (*“Academic Year 2013/2014”*) yw'r cyfnod o ddeuddeng mis sy'n cychwyn ar—

- (a) 1 Medi 2013 pan fo blwyddyn academaidd y cwrs dynodedig o dan sylw yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Medi 2013 a chyn 1 Ionawr 2014;
- (b) 1 Ionawr 2014 pan fo blwyddyn academaidd y cwrs dynodedig o dan sylw yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Ionawr 2014 a chyn 1 Ebrill 2014;
- (c) 1 Ebrill 2014 pan fo blwyddyn academaidd y cwrs dynodedig o dan sylw yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill 2014 a chyn 1 Gorffennaf 2014;
- (d) 1 Gorffennaf 2014 pan fo blwyddyn academaidd y cwrs dynodedig o dan sylw yn cychwyn ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2014 a chyn 1 Medi 2014;

ystyr “blwyddyn dreth” (*“tax year”*) yw blwyddyn dreth 2013 neu flwyddyn dreth 2014, yn ôl fel y mae'r cyd-destun yn mynnu;

ystyr “blwyddyn dreth 2013” (*“2013 tax year”*) yw'r cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 5 Ebrill 2012;

(1) 1988 p.40.

ystyr “blwyddyn dreth 2014” (“2014 tax year”) yw’r cyfnod o ddeuddeng mis sy’n dod i ben ar 5 Ebrill 2013;

ystyr “bwrsari gofal iechyd” (“healthcare bursary”) yw bwrsari neu ddyfarniad o ddisgrifiad tebyg o dan adran 63 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968(1) neu erthygl 44 o Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Iechyd Personol (Gogledd Iwerddon) 1972(2);

ystyr “ceisydd” (“applicant”) yw person sy’n gwneud cais am gymorth yn unol â pharagraff 6;

ystyr “cwrs dynodedig” (“designated course”) yw cwrs a ddynodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Cynllun hwn a Blwyddyn Academaidd 2013/2014, sef cwrs o addysg (ac eithrio addysg uwch) neu hyfforddiant—

- (a) sy’n cynnwys presenoldeb gofynnol mewn sefydliad addysg bellach neu fangre darparwr addysg neu hyfforddiant arall, a
- (b) a gyllidir gan—
 - (i) Llywodraeth Cymru;
 - (ii) yr Asiantaeth Cyllido Addysg;
 - (iii) Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau; neu
 - (iv) awdurdod cyhoeddus sy’n gyfrifol am gyllido addysg (ac eithrio addysg uwch) a hyfforddiant sy’n addas i ofynion personau 19 oed a throsodd yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon;

-
- (1) 1968 p.46; diwygiwyd adran 63 gan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1972 (p.58), Atodlen 7; Deddf Ad-drefnu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1973 (p.32), Atodlenni 4 a 5; Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49), Atodlenni 15 ac 16; Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978 (p.29), Atodlenni 16 a 17; Deddf Llywodraeth Leol 1985 (p.51), Atodlen 17; Deddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), adran 20, adran 25(2) ac Atodlen 3; Deddf Llywodraeth Leol (Yr Alban) 1994 (p.39), Atodlen 13; Deddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17), Atodlen 1; Gorchymyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cymru) (Diwygiadau Canlyniadol Rhif 2) 1996 (O.S. 1996/1008); Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Sylfaenol) 1997 (p.46), Atodlen 2; Deddf Iechyd 1999 (p.8), Atodlen 4; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15), Atodlen 5; Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17), Atodlenni 2, 5 a 9; Rheoliadau Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (Darpariaethau Atodol, Canlyniadol etc) 2002 (O.S. 2002/2469), Atodlen 1; Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43), Atodlenni 4, 11 a 14; Gorchymyn Cychwyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Rhif 2) 2004 (O.S. 2004/288), erthygl 7; Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/480); O.S. 2004/288, erthygl 7; Deddf Plant 2004 (p.31), adran 55; O.S. 2004/957, yr Atodlen; Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p.43), Atodlen 1; O.S. 2007/961, yr Atodlen; a Deddf Iechyd 2009, adran 13 ac Atodlen 1.
- (2) O.S. 1972/1265 (G.I.14) y gwnaed diwygiadau iddo, nad ydynt yn berthnasol i'r Cynllun hwn.

ystyr “cyfnod o astudio amser-llawn” (“*period of full time study*”) yw cyfnod o astudio ar un neu ragor o gyrsiau dynodedig sydd gyda’i gilydd yn cynnwys 500 neu ragor o oriau cyswllt yn ystod Blwyddyn Academaidd 2012/2013;

ystyr “cyfnod o astudio rhan-amser” (“*period of part-time study*”) yw cyfnod o astudio ar un neu ragor o gyrsiau dynodedig sydd gyda’i gilydd yn cynnwys dim llai na 275 o oriau cyswllt a dim mwy na 499 o oriau cyswllt yn ystod Blwyddyn Academaidd 2013/2014;

ystyr “cymorth” (“*support*”) yw cymorth ariannol ar ffurf Grant Dysgu’r Cynulliad a roddir gan Weinidogion Cymru yn unol â’r Cynllun hwn;

ystyr “cytundeb grant dysgu” (“*learning grant agreement*”) yw dogfen a lofnodir gan geisydd, sy’n cynnwys unrhyw gydnabyddiaethau a chadarnhadau sy’n ofynnol gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Grant Dysgu’r Cynulliad;

ystyr “Grant Dysgu’r Cynulliad” neu “Grant Dysgu Cynulliad” (“*Assembly Learning Grant*”) yw cymorth ariannol ar ffurf grant yn unol â’r Cynllun hwn;

ystyr “incwm gweddilliol” (“*residual income*”)—

- (a) mewn perthynas â phersonau ac eithrio myfyrwyr cymwys annibynnol, yw incwm trethadwy mewn perthynas â blwyddyn dreth 2013 ar ôl cymhwyso paragraff 10 (yn achos myfyriwr cymwys), paragraff 11 (yn achos rhiant myfyriwr cymwys ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau paragraffau 11(3) ac 11(7)), paragraff 12 (yn achos partner myfyriwr cymwys) neu baragraff 13 (yn achos partner rhiant myfyriwr cymwys);
- (b) mewn perthynas â myfyrwyr cymwys annibynnol, yw incwm o bob ffynhonnell mewn perthynas â Blwyddyn Academaidd 2013/2014;

ystyr “incwm trethadwy” (“*taxable income*”) yw incwm trethadwy person o bob ffynhonnell fel y’i cyfrifiennir at ddibenion—

- (a) y Deddfau Treth Incwm(1);
- (b) deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall sy’n gymwys i incwm y person; neu
- (c) pan fo deddfwriaeth mwy nag un Aelod-wladwriaeth yn gymwys i’r cyfnod, y

(1) Mae’r ymadrodd “The Income Tax Acts” wedi ei ddiffinio yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 (p.30) ac mae’n golygu’r holl ddeddfiadau sy’n ymwneud â threth incwm, gan gynnwys unrhyw ddarpariaethau yn y Deddfau Treth Gorfporaeth sy’n ymwneud â threth incwm.

ddeddfwriaeth, ym marn Gweinidogion Cymru, y bydd y person yn talu'r swm mwyaf o dreth oddi tani yn y cyfnod hwnnw (ac eithrio fel y darperir fel arall ym mharagraff 11);

mae i "incwm yr aelwyd" ("*household income*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 9;

mae i "myfyriwr cymwys" ("*eligible student*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 3;

mae i "myfyriwr cymwys annibynnol" ("*independent eligible student*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 14;

ystyr "oriau cyswllt" ("*contact hours*") yw'r cyfnod o amser, a fynegir mewn oriau, pan fydd myfyriwr cymwys yn cael ei addysgu neu ei oruchwylio yn ystod cyfnodau o astudio neu ymarfer;

ystyr "partner" ("*partner*")—

(a) mewn perthynas â myfyriwr cymwys, yw unrhyw un o'r canlynol—

(i) priod y myfyriwr cymwys;

(ii) partner sifil y myfyriwr cymwys;

(iii) person sydd fel arfer yn byw gyda'r myfyriwr cymwys fel partner sifil y myfyriwr cymwys;

(iv) person sydd fel arfer yn byw gyda'r myfyriwr cymwys fel priod y myfyriwr cymwys;

(b) mewn perthynas â rhiant myfyriwr cymwys, yw unrhyw un o'r canlynol ac eithrio rhiant arall y myfyriwr cymwys—

(i) priod rhiant y myfyriwr cymwys;

(ii) partner sifil rhiant y myfyriwr cymwys;

(iii) person sydd fel arfer yn byw gyda rhiant y myfyriwr cymwys fel priod y rhiant;

(iv) person sydd fel arfer yn byw gyda rhiant y myfyriwr cymwys fel partner sifil y rhiant;

ystyr "rhiant" ("*parent*") yw rhiant naturiol neu fabwysiadol.

(2) Pan fo incwm trethadwy person yn cael ei gyfrifiannu yn unol â deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, ac eithrio drwy gyfeirio at gyfnod o ddeuddeng mis sy'n diweddu ar 5 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn, bernir bod "blwyddyn dreth 2013" a "blwyddyn dreth 2014" yn golygu pa gyfnod bynnag o ddeuddeng mis sy'n gymwysadwy er mwyn cyfrifiannu incwm trethadwy person o dan y ddeddfwriaeth treth incwm honno, ac sy'n diweddu yn union cyn 1 Medi 2013 ac 1 Medi 2014, yn eu trefn.

(3) Ac eithrio fel y darperir ym mharagraff 11(6), pan fo incwm yn dod i law mewn arian cyfred ac eithrio sterling, gwerth yr incwm hwnnw at ddibenion y Cynllun hwn—

- (a) os prynir sterling gyda'r incwm, yw'r swm mewn sterling a geir;
- (b) fel arall, yw gwerth y sterling y gellid ei brynu â'r incwm gan ddefnyddio'r gyfradd am y mis y daeth i law ynddo, sef cyfradd a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol⁽¹⁾.

Cymhwysra

3.—(1) Mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i gael cymorth mewn cysylltiad â chyfnod o astudio amser-llawn neu gyfnod o astudio rhan-amser yr ymgwymerir ag ef yn ystod Blwyddyn Academaidd 2013/2014, yn ddarostyngedig i'r Cynllun hwn ac yn unol ag ef.

(2) Mae person yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chwrs dynodedig—

- (a) os bydd Gweinidogion Cymru, wrth asesu cais y person am gymorth, yn penderfynu bod y person hwnnw'n dod o dan un o'r categorïau a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Cynllun hwn;
- (b) os yw'r person wedi cyrraedd 19 oed ar 1 Medi 2013 neu cyn y dyddiad hwnnw;
- (c) os nad yw'r person yn anghymwys o ganlyniad i is-baragraff (3); a
- (d) os yw'r person wedi llofnodi cytundeb grant dysgu.

(3) Mae person yn anghymwys—

- (a) os yw'r person, ym marn Gweinidogion Cymru, wedi dangos ei fod yn anffit oherwydd ei ymddygiad i gael Grant Dysgu'r Cynulliad;
- (b) os yw'r person eisoes wedi cael Grant Dysgu'r Cynulliad mewn perthynas â'i bresenoldeb ar unrhyw gwrs yn ystod Blwyddyn Academaidd 2013/14; neu
- (c) os rhoddwyd i'r person neu os talwyd iddo mewn perthynas â'i bresenoldeb ar y cwrs —
 - (i) bwrsari gofal iechyd;
 - (ii) bwrsari gan Goleg Harlech neu fwrsari cyfatebol a ddarparwyd gan Bwyllgor y Colegau Preswyl neu gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach yr Alban;

(1) Financial Statistics (ISSN 0015-203X).

- (iii) cyllid ar wahân gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â rhaglen dysgu seiliedig ar waith (1); neu
- (iv) unrhyw gymorth ariannol arall o gronfeydd cyhoeddus a benderfynir gan Weinidogion Cymru.

Dilyniant academiaidd

4.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) a pharagraff 5, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â thalu Grant Dysgu'r Cynulliad i fyfyrwr mewn perthynas â Blwyddyn Academiaidd 2013/2014 neu ran o'r flwyddyn honno oni fodlonir hwy, ar sail resymol, fod y cyfnod o astudio o dan sylw yn golygu dilyniant academiaidd i'r myfyrwr o'i gymharu ag astudiaethau yr ymgymerwyd â hwy gan y myfyrwr mewn blynyddoedd academiaidd blaenorol.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru dalu Grant Dysgu'r Cynulliad i fyfyrwr am flwyddyn academiaidd sy'n cael ei hail-wneud os yw'r flwyddyn honno yn ail-wneud blwyddyn academiaidd flaenorol na allodd y myfyrwr ei chwblhau am resymau a ystyrir gan Weinidogion Cymru yn rhai diymwared.

Trosglwyddiadau

5. Pan fo myfyrwr sydd â hawl i gael Grant Dysgu'r Cynulliad ar gyfer cwrs dynodedig yn trosglwyddo i gwrs dynodedig arall sy'n gyfnod o astudio amserllawn neu'n gyfnod o astudio rhan-amser yn ystod Blwyddyn Academiaidd 2013/2014, caiff Gweinidogion Cymru dalu Grant Dysgu'r Cynulliad i'r myfyrwr hwnnw am weddill Blwyddyn Academiaidd 2013/2014, ac eithrio na fydd unrhyw Grant Dysgu Cynulliad yn daladwy—

- (a) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni, ar sail resymol, nad yw'r cwrs dynodedig newydd yn golygu dilyniant academiaidd i'r myfyrwr o'i gymharu â'r cwrs dynodedig y mae wedi trosglwyddo ohono; a
- (b) os yw'r myfyrwr yn ymrestru ar y cwrs dynodedig y mae'n trosglwyddo iddo fwy nag 20 wythnos ar ôl dechrau'r cwrs blaenorol.

Ceisiadau

6.—(1) Bydd ceisydd yn ymgeisio am gymorth drwy lenwi a chyflwyno i Weinidogion Cymru—

(1) Cyflwynir Rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith o dan adrannau 31, 32 a 35 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21). Mae'r adrannau hynny wedi eu diwygio gan O.S. 2005/3238 (Cy.243) ac mae adran 35 hefyd wedi ei diwygio gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (p.10), adrannau 34(8), 42(6) ac Atodlen 9; a chan Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p.25), Atodlen 1, paragraffau 75 a 76.

- (a) y cytundeb grant dysgu; a
- (b) os bydd ei angen ar Weinidogion Cymru, cais, ar unrhyw ffurf sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru.

(2) Rhaid i unrhyw ddogfennau sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru gael eu cyflwyno gyda'r cytundeb grant dysgu ac unrhyw gais a hynny erbyn unrhyw amser sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru

(3) Caiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau a gwneud unrhyw ymholiadau y maent yn credu eu bod yn angenrheidiol i benderfynu a yw'r ceisydd yn fyfyrwr cymwys, a yw'r ceisydd yn cymhwyso i gael cymorth a swm y cymorth sy'n daladwy, os oes rhywfaint.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod i'r ceisydd a yw'r ceisydd yn cymhwyso i gael cymorth ai peidio, ac os yw'r ceisydd yn cymhwyso, swm y cymorth sy'n daladwy, os oes rhywfaint, mewn perthynas â Blwyddyn Academaidd 2013/2014.

(5) Caiff ceisydd wneud cais am ailasesiad, neu caiff Gweinidogion Cymru ailasesu a yw'r ceisydd yn cymhwyso i gael cymorth, os bydd unrhyw rai o amgylchiadau'r ceisydd sy'n berthnasol i'w gais yn newid, naill ai cyn, neu yn ystod Blwyddyn Academaidd 2013/2014.

(6) Mae is-baragraffau (3) a (4) yn gymwys mewn perthynas ag ailasesiad o'r fath.

Hawlogaeth i gael grant

7.—(1) (Yn ddarostyngedig i baragraff 8) bydd myfyriwr cymwys sy'n gymhwysol i gael cymorth mewn cysylltiad â chyfnod o astudio amser-llawn yn unol â'r Cynllun hwn yn cael Grant Dysgu'r Cynulliad fel a ganlyn—

- (a) pan fo incwm yr aelwyd yn £6,120 neu lai, bydd y myfyriwr yn cael £1,500;
- (b) pan fo incwm yr aelwyd yn fwy na £6,120 ond nid yn fwy na £12,235, bydd y myfyriwr yn cael £750; ac
- (c) pan fo incwm yr aelwyd yn fwy na £12,235 ond nid yn fwy na £18,370, bydd y myfyriwr yn cael £450.

(2) (Yn ddarostyngedig i baragraff 8) bydd myfyriwr cymwys sy'n gymhwysol i gael cymorth mewn cysylltiad â chyfnod o astudio rhan-amser yn unol â'r Cynllun hwn yn cael Grant Dysgu'r Cynulliad fel a ganlyn—

- (a) pan fo incwm yr aelwyd yn £6,120 neu lai, bydd y myfyriwr yn cael £750;

- (b) pan fo incwm yr aelwyd yn fwy na £6,120 ond nid yn fwy na £12,235, bydd y myfyriwr yn cael £450; ac
- (c) pan fo incwm yr aelwyd yn fwy na £12,235 ond nid yn fwy na £18,370, bydd y myfyriwr yn cael £300.

Personau sy'n ymadael â'r ddalfa neu leoliad cadw

8.—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i bersonau a gadwyd, yn dilyn eu collfarnu, mewn—

- (a) carchar (o fewn ystyr "*prison*" yn Neddf Carchardai 1952(1)); neu
- (b) sefydliad troseddwyd ifanc (o fewn ystyr "*young offender institution*" yn adran 43 o'r Ddeddf honno),

ac a ryddheir ar drwydded dros dro i ddilyn cwrs dynodedig (cyfeirir at berson o'r fath fel "person dan gadwad" at ddibenion y paragraff hwn).

(2) Caiff person dan gadwad wneud cais am gymorth yn unol â pharagraff 6 ar unrhyw adeg cyn cwblhau ei ddedfryd yn y ddalfa ym Mlwyddyn Academaidd 2013/2014, ond ni fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried cais o'r fath cyn bo'r person wedi ei ryddhau o'r ddalfa.

(3) Bydd person dan gadwad—

- (a) sy'n gwneud cais am gymorth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2013/2014 cyn cwblhau ei ddedfryd, yn unol â pharagraff 8(2);
- (b) sy'n fyfyrwr cymwys; ac
- (c) sy'n gymhwysol i gael cymorth mewn cysylltiad â chyfnod o astudio amser-llawn yn unol â'r Cynllun hwn,

yn cael Grant Dysgu'r Cynulliad, a gyfrifwyd yn unol ag is-baragraff (5) ac sy'n ddarostyngedig bob amser i ddarpariaethau paragraff 15.

(4) Bydd person dan gadwad—

- (a) sy'n gwneud cais am gymorth ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2013/2014 cyn cwblhau ei ddedfryd, yn unol â pharagraff 8(2);
- (b) sy'n fyfyrwr cymwys; ac
- (c) sy'n gymhwysol i gael cymorth mewn cysylltiad â chyfnod o astudio rhan-amser yn unol â'r Cynllun hwn,

yn cael Grant Dysgu'r Cynulliad a gyfrifwyd yn unol ag is-baragraff (5) ac sy'n ddarostyngedig bob amser i ddarpariaethau paragraff 15.

(1) 1952 p.52.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyfrifo hawlogaeth ceisydd i gael Grant Dysgu'r Cynulliad yn unol â'r fformiwla a ganlyn:

$$HA = GDC \times FfDRh$$

Yn y fformiwla—

ystyr "GDC" ("ALG") yw—

£1500 mewn perthynas â pherson dan gadwad sy'n dod o fewn is-baragraff (3); a

£750 mewn perthynas â pherson dan gadwad sy'n dod o dan is-baragraff (4).

ystyr "FfDRh" ("RDF") yw

- (i) 100% pan fo'r ceisydd yn cwblhau ei ddedfryd yn y ddalfa yn ystod tymor cyntaf cwrs dynodedig, sydd wedi ei ffurfio o un, dau neu dri thymor mewn un flwyddyn academaidd;
- (ii) 60% pan fo'r ceisydd yn cwblhau ei ddedfryd yn y ddalfa yn ystod ail dymor cwrs dynodedig, sydd wedi ei ffurfio o dri thymor mewn un flwyddyn academaidd;
- (iii) 50% pan fo'r ceisydd yn cwblhau ei ddedfryd yn y ddalfa yn ystod ail dymor cwrs dynodedig, sydd wedi ei ffurfio o ddau dymor mewn un flwyddyn academaidd;
- (iv) 30% pan fo'r ceisydd yn cwblhau ei ddedfryd yn y ddalfa yn ystod trydydd tymor cwrs dynodedig, sydd wedi ei ffurfio o dri thymor mewn un flwyddyn academaidd;

ystyr "HA" ("RE") yw'r hawlogaeth a ailgyfrifwyd.

Incwm yr aelwyd

9.—(1) Cyfrifir incwm yr aelwyd at ddibenion y Cynllun hwn yn unol â'r paragraff hwn a pharagraffau 10 i 13.

(2) Incwm yr aelwyd—

- (a) yn achos myfyriwr cymwys nad yw'n fyfyrwr cymwys annibynnol yw—
 - (i) incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys, neu
 - (ii) incwm gweddilliol rhiant y myfyriwr cymwys (yn ddarostyngedig i baragraffau 11(3) ac 11(8)) wedi ei agregu ag incwm gweddilliol partner rhiant y myfyriwr, ar yr amod bod Gweinidogion Cymru wedi dewis y rhiant hwnnw o dan baragraff 11(8)(a),

p'un bynnag o'r ddau incwm yw'r mwyaf;

- (b) yn achos myfyriwr cymwys annibynnol a chanddo bartner, yw incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys neu incwm gweddilliol partner y myfyriwr cymwys, p'un bynnag o'r ddau incwm yw'r mwyaf; neu
- (c) yn achos myfyriwr cymwys annibynnol nad oes ganddo bartner, yw incwm gweddilliol y myfyriwr cymwys;
- (d) yn achos myfyriwr cymwys y mae un o'i rieni yn marw ar neu ar ôl 6 Ebrill 2012, yw incwm a gyfrifir yn unol â pharagraff 11(7).

Didynnu premiymau pensiwn o incwm gweddilliol myfyriwr cymwys

10. Pan fo'r ceisydd yn ymgymryd â chwrs dynodedig sy'n gyfnod o astudio amser-llawn, er mwyn penderfynu incwm gweddilliol myfyriwr cymwys, didynnir o incwm trethadwy'r ceisydd (os na wnaed y didyniad eisoes wrth benderfynu'r incwm trethadwy) swm gros unrhyw bremiwm neu swm arall a delir gan y myfyriwr cymwys mewn perthynas â phensiwn (nad yw'n bensiwn sy'n daladwy o dan bolisi yswiriant bywyd) y mae rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas ag ef o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004(1), neu, pan fo incwm y myfyriwr cymwys yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, swm gros unrhyw bremiwm neu swm o'r fath y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas ag ef os byddai'r deddfwriaeth honno'n gwneud darpariaeth sy'n gyfatebol i'r Deddfau Treth Incwm.

Cyfrifo incwm gweddilliol rhiant

11.—(1) Er mwyn penderfynu incwm trethadwy rhiant myfyriwr cymwys, ni fydd unrhyw ddidyniadau sydd i'w gwneud neu unrhyw esemptiadau a ganiateir—

- (a) ar ffurf rhyddhadau personol y darperir ar eu cyfer ym Mhennod 1 o Ran VII o Ddeddf Treth Incwm a Threth Gorfforaeth 1988(2) neu, os yw'r incwm yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, unrhyw ryddhadau personol cyffelyb;
- (b) yn unol ag unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol nad yw taliadau, a fyddai fel arall yn cael eu trin o dan gyfraith y Deyrnas

(1) 2004 p.12; diwygiwyd adran 188 gan Ddeddf Cyllid 2007 (p. 11) adrannau 68, 69, 114 ac Atodlenni 18 a 19.

(2) 1988 p.1; diwygiwyd Rhan VII gan Ddeddf Cyllid 2009 (p.10) o ran y flwyddyn dreth 2011.

Unedig fel rhan o incwm person, yn cael eu
trin fel y cyfryw odano neu odani;

yn cael eu gwneud neu eu caniatáu.

(2) Er mwyn penderfynu incwm gweddilliol rhiant myfyriwr cymwys, didynnir o'i incwm trethadwy agregiad unrhyw symiau sy'n dod o dan unrhyw un neu rai o'r is-baragraffau a ganlyn—

- (a) swm gros unrhyw bremiwm neu swm sy'n ymwneud â phensiwn (nad yw'n bremiwm sy'n daladwy o dan bolisi yswiriant bywyd) y mae rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas ag ef o dan adran 188 o Ddeddf Cyllid 2004, neu, pan fo'r incwm yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, swm gros unrhyw bremiwm y byddai rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas ag ef os byddai'r deddfwriaeth honno'n gwneud darpariaeth sy'n gyfatebol i'r Deddfau Treth Incwm;
- (b) pan fo is-baragraff (5) yn gymwys, unrhyw symiau sy'n cyfateb i'r didyniad a grybwyllwyd yn is-baragraff (2)(a), ar yr amod nad yw unrhyw symiau a didynnir felly'n fwy na'r didyniadau a wneid pe bai'r cyfan o incwm rhiant y myfyriwr cymwys mewn gwirionedd yn incwm at ddibenion y Deddfau Treth Incwm.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod incwm gweddilliol y rhiant ym mlwyddyn dreth 2014, o ganlyniad i ryw ddigwyddiad y tu hwnt i reolaeth y rhiant, yn debygol o fod yn llai nag incwm gweddilliol y rhiant ym mlwyddyn dreth 2013, i'r graddau y byddai'n effeithio ar hawlogaeth y myfyriwr pe seilid yr hawlogaeth ar flwyddyn dreth 2014, rhaid iddynt, er mwyn galluogi'r myfyriwr cymwys i fynychu'r cwrs heb ddioddef caledi, ganfod yr incwm gweddilliol ar gyfer blwyddyn dreth 2014.

(4) Pan fo rhiant myfyrywyr cymwys yn bodloni Gweinidogion Cymru fod ei incwm, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, yn deillio o elw busnes y mae'n ei redeg neu broffesiwn y mae'n ei ddilyn, yna ystyr unrhyw gyfeiriad yn y paragraff hwn at flwyddyn dreth yw'r cyfnod cynharaf o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar ôl dechrau'r flwyddyn dreth o dan sylw ac y mae cyfrifon yn cael eu cadw ar ei gyfer mewn cysylltiad â'r busnes neu'r proffesiwn hwnnw.

(5) Pan fo rhiant myfyriwr cymwys yn cael unrhyw incwm nad yw'n rhan o incwm trethadwy'r rhiant dim ond oherwydd —

- (a) nad yw'r rhiant yn preswyllo, neu fel arfer yn preswyllo, neu wedi ymgartrefu yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth arall;

- (b) nad yw'r incwm yn deillio yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth arall; neu
- (c) bod yr incwm yn deillio o swydd, gwasanaeth neu gyflogaeth, y mae incwm ohoni neu ohono'n esempt rhag treth yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth,

mae incwm trethadwy'r rhiant yn cael ei gyfrifiannu at ddibenion y Cynllun hwn fel pe bai'r incwm hwnnw'n rhan o incwm trethadwy'r rhiant.

(6) Pan fo incwm rhiant y myfyriwr cymwys yn cael ei gyfrifiannu fel pe bai at ddibenion deddfwriaeth treth incwm Aelod-wladwriaeth arall, o dan ddarpariaethau'r Cynllun hwn, mae'r incwm yn cael ei gyfrifiannu yn arian cyfred yr Aelod-wladwriaeth honno, ac incwm rhiant y myfyriwr cymwys at ddibenion y Cynllun hwn fydd gwerth sterling yr incwm hwnnw, a ganfyddir yn ôl y gyfradd ar gyfer y mis y mae diwrnod olaf y flwyddyn dreth yn syrthio ynddo, fel y'i cyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

(7) Pan fo un o rieni'r myfyriwr cymwys yn marw ar neu ar ôl 6 Ebrill 2013 a bod incwm y rhiant hwnnw wedi ei gymryd, neu y byddai'n cael ei gymryd, i ystyriaeth er mwyn penderfynu incwm yr aelwyd, incwm yr aelwyd fydd —

- (a) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a benderfynir drwy gyfeirio at incwm y ddau riant, sef y gyfran mewn perthynas â'r rhan honno o flwyddyn dreth 2014 pan oedd y ddau riant yn fyw; a
- (b) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd a benderfynir drwy gyfeirio at incwm y rhiant sy'n goroesi, sef y gyfran mewn perthynas â'r rhan o flwyddyn dreth 2014 sy'n weddill ar ôl marwolaeth y rhiant arall.

(8) Pan fo Gweinidogion Cymru'n penderfynu nad oedd y rhieni fel arfer yn byw gyda'i gilydd drwy gydol blwyddyn dreth 2013 incwm yr aelwyd fydd agregiad y canlynol—

- (a) incwm p'un bynnag o'r rhieni y mae Gweinidogion Cymru yn canfod yw'r mwyaf priodol yn yr amgylchiadau, am y rhan honno o flwyddyn dreth 2013 pan nad oedd y rhieni'n byw gyda'i gilydd felly; a
- (b) y gyfran briodol o incwm yr aelwyd am y rhan honno o flwyddyn dreth 2013 pan oedd y rhieni'n byw gyda'i gilydd felly, a gyfrifir yn unol ag is-baragraffau (1) i (6).

Cyfrifo incwm gweddilliol partner myfyriwr cymwys

12.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2) a (3) o'r paragraff hwn, penderfynir incwm gweddilliol partner myfyriwr cymwys yn unol â pharagraff 11 ac eithrio paragraffau 11(7) ac 11(8), gan ddehongli cyfeiriadau at y riant fel pe baent yn gyfeiriadau at bartner y myfyriwr cymwys.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru'n penderfynu y bu'r myfyriwr cymwys a phartner y myfyriwr cymwys fel arfer yn byw gyda'i gilydd drwy gydol blwyddyn dreth 2013, cymerir incwm gweddilliol y partner i ystyriaeth wrth ganfod incwm yr aelwyd.

(3) Pan fo bydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu y bu'r myfyriwr cymwys a phartner y myfyriwr cymwys fel arfer yn byw gyda'i gilydd am ran, ond nid y cyfan, o flwyddyn dreth 2013, penderfynir incwm gweddilliol y partner drwy gyfeirio at ei incwm gweddilliol o dan is-baragraff (1) wedi ei rannu â hanner cant a dau ac wedi ei luosi â nifer yr wythnosau cyfan ym mlwyddyn dreth 2013 y mae Gweinidogion Cymru'n penderfynu y bu'r myfyriwr cymwys a'i bartner fel arfer yn byw gyda'i gilydd.

Cyfrifo incwm gweddilliol partner riant

13. Penderfynir incwm gweddilliol partner riant myfyriwr cymwys y mae ei incwm gweddilliol yn rhan o incwm yr aelwyd yn rhinwedd rheoliad 9(2)(a) yn unol â pharagraff 12, gan ddehongli cyfeiriadau at bartner y myfyriwr cymwys fel pe baent yn gyfeiriadau at bartner riant y myfyriwr cymwys a chyfeiriadau at y myfyriwr cymwys fel pe baent yn gyfeiriadau at riant y myfyriwr cymwys.

Myfyriwr cymwys annibynnol

14.—(1) At ddibenion y Cynllun hwn mae ceisydd yn fyfyrwr cymwys annibynnol mewn unrhyw un o'r achosion a ganlyn—

- (a) pan fo'r ceisydd yn 25 oed neu drosodd ar ddiwrnod cyntaf y cwrs dynodedig;
- (b) pan fo'r ceisydd yn briod neu mewn partneriaeth sifil ar ddiwrnod cyntaf y cwrs dynodedig, p'un a yw'r briodas neu'r bartneriaeth sifil yn dal mewn bodolaeth ai peidio;
- (c) pan nad oes gan y ceisydd riant sy'n fyw;
- (d) pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad oes modd, ar ddiwrnod cyntaf y cwrs dynodedig, dod o hyd i'r naill na'r llall o rieni'r ceisydd neu nad yw'n rhesymol ymarferol cysylltu â'r naill neu'r llall ohonynt;

- (e) pan nad yw'r ceisydd wedi cyfathrebu â'r naill riant na'r llall yn ystod cyfnod o un flwyddyn cyn diwrnod cyntaf y cwrs dynodedig neu os gall y ceisydd, ym marn Gweinidogion Cymru ddangos ar seiliau eraill ei fod wedi ymddieithrio yn anadferadwy oddi wrth ei rieni;
- (f) pan fu'r ceisydd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol o fewn ystyr adran 22 o Ddeddf Plant 1989⁽¹⁾ drwy gydol unrhyw gyfnod o dri mis yn diweddu ar neu ar ôl y dyddiad y cafodd y ceisydd ei ben-blwydd yn 16 oed a chyn diwrnod cyntaf y cwrs dynodedig, ac na fu, ar unrhyw adeg o dan awdurdod neu reolaeth ei rieni yn ystod y cyfnod o'i ben-blwydd yn 16 oed ymlaen;
- (g) pan fo rhieni'r ceisydd yn preswyllo y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd a bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni naill ai—
 - (i) y byddai asesu incwm yr aelwyd drwy gyfeirio at eu hincwm gweddilliol yn gosod y rhieni hynny mewn perygl; neu
 - (ii) na fyddai'n rhesymol ymarferol i'r rhieni hynny, o ganlyniad i gyfrifiad mewn perthynas â pharagraff 9, anfon unrhyw arian perthnasol i'r Deyrnas Unedig;
- (h) pan fo paragraff 11(8) yn gymwys a bod y rhiant mwyaf priodol ym marn Gweinidogion Cymru at ddibenion y paragraff hwnnw wedi marw (ni waeth a oedd gan y rhiant o dan sylw bartner ai peidio);
- (i) pan fo'r ceisydd yn aelod o urdd grefyddol ac yn preswyllo yn un o dai'r urdd honno ar ddiwrnod cyntaf y cwrs dynodedig;
- (j) pan fo'r ceisydd yn gofalu am berson sydd o dan 18 oed ar ddiwrnod cyntaf y cwrs dynodedig, neu y mae'n dod i'w ran i ymgymryd â gofal person sydd o dan 18 oed yn ystod Blwyddyn Academaidd 2013/2014;
- (k) pan fo'r ceisydd ("A" yn yr is-baragraff hwn) wedi ei gynnal ei hun o'i enillion am unrhyw gyfnod neu gyfnodau a ddaeth i ben cyn diwrnod cyntaf y cwrs dynodedig, a'r rheini'n gyfnodau nad ydynt (o'u hagregu) yn llai na thair blynedd, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae A i'w drin fel pe bai'n ei gynnal ei hun o'i enillion yn ystod unrhyw gyfnod—

(1) 1989 p.41; diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22), adran 107 ac Atodlen 5, Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p.35), adran 2, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p.38), adran 116, Deddf Plant 2004 (p.31), adran 52 a Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p.23), adran 39 ac Atodlen 3.

- (i) pan oedd A yn cymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer hyfforddiant i'r di-waith o dan unrhyw gynllun a oedd yn cael ei weithredu, ei noddi neu ei ariannu gan unrhyw un o awdurdodau neu asiantaethau'r wladwriaeth, boed cenedlaethol, rhanbarthol neu leol ("awdurdod perthnasol");
- (ii) pan oedd A yn cael budd-dal sy'n daladwy gan unrhyw awdurdod perthnasol mewn perthynas â pherson sydd ar gael i'w gyflogi ond sy'n ddi-waith;
- (iii) pan oedd A ar gael i'w gyflogi ac wedi cydymffurfio ag unrhyw ofyniad ynglŷn â chofrestru a osodwyd gan awdurdod perthnasol fel amod hawlogaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cael hyfforddiant neu fudd-dal;
- (iv) pan oedd gan A Efrogriaeth gan y Wladwriaeth neu ddyfarniad cyffelyb;
- (v) pan oedd A yn cael unrhyw bensiwn, lwfans neu fudd-dal arall a oedd yn cael ei dalu iddo gan unrhyw berson oherwydd anabledd, gwelyfod, anaf neu salwch.

Presenoldeb

15.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ailgyfrifo hawlogaeth ceisydd i gael Grant Dysgu'r Cynulliad yn unol ag is-baragraff (2) os na fu presenoldeb y ceisydd yn foddhaol ar y cwrs dynodedig y gwnaeth gais am Grant Dysgu'r Cynulliad mewn perthynas ag ef.

(2) Y fformiwla ar gyfer ailgyfrifo yw—

$$HA = \frac{GB}{PP} \times GDC$$

Yn y fformiwla—

ystyr "GB" ("AA") yw nifer y diwrnodau bu'r ceisydd yn bresennol ac yr hysbyswyd Gweinidogion Cymru amdanynt gan y sefydliad sy'n cyflenwi'r cwrs, gan farnu bod y nifer hwnnw'n cynnwys unrhyw gyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch nad yw eu cyfanswm yn uwch na 60 o ddiwrnodau.

ystyr "GDC" ("ALG") yw'r hawlogaeth i gael Grant Dysgu'r Cynulliad a gyfrifir yn unol â pharagraff 7 neu 8 fel y bo'n briodol;

ystyr "HA" ("RE") yw'r hawlogaeth a ailgyfrifwyd; ac

ystyr “PP” (“PA”) yw nifer y diwrnodau, o’r diwrnod cyntaf i’r olaf, o bresenoldeb angenrheidiol ar y cwrs.

Talu Grant Dysgu'r Cynulliad

16.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu (yn ddarostyngedig i is-baragraff (3)) y grant y mae myfyriwr cymwys yn cymhwyso i’w gael o dan y Cynllun hwn (fel y caniateir ei ailasesu neu ei ailgyfrifo fel y darperir ar ei gyfer yn y Cynllun hwn) yn y modd, yn y rhandaliadau (os oes rhai o gwbl) ac ar yr adegau sy’n briodol yn eu barn hwy, ac wrth arfer eu swyddogaethau o dan y paragraff hwn, cânt wneud taliadau dros dro tra disgwylir cyfrifiad terfynol swm Grant Dysgu'r Cynulliad y mae'r myfyriwr yn cymhwyso i’w gael.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn amod o’r hawlogaeth i gael taliad bod y myfyriwr cymwys yn rhoi iddynt fanylion cyfrif banc neu gyfrif cymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig, y caniateir i daliadau gael eu gwneud iddo drwy drosglwyddiad electronig.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru atal neu gadw’n ôl daliad o Grant Dysgu'r Cynulliad, neu ran ohono, i fyfyrwr cymwys—

- (a) os oes unrhyw wybodaeth a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru gan neu ar ran y myfyriwr cymwys yn anghywir mewn unrhyw ffordd o bwys; neu
- (b) os â’r myfyriwr cymwys yn fethdalwr neu os yw’n dioddef unrhyw broses o atafaelu, gweithredu gafaeleb, cipio neu broses arall sy’n effeithio ar unrhyw rai o asedau’r myfyriwr; neu
- (c) os yw’r myfyriwr cymwys ar unrhyw adeg, ym marn Gweinidogion Cymru, yn dangos, drwy ei ymddygiad, ei fod yn anffit i gael Grant Dysgu'r Cynulliad.

Gordalu

17. Rhaid i berson, os gofynnir iddo wneud hynny gan Weinidogion Cymru, ad-dalu unrhyw swm a dalwyd i’r person hwnnw o dan y Cynllun hwn sydd, am ba reswm bynnag, yn fwy na swm Grant Dysgu'r Cynulliad y mae gan y person hwnnw hawlogaeth i’w gael o dan y Cynllun hwn.

18. Caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg, ofyn i berson am wybodaeth y maent yn credu ei bod yn angenrheidiol i adennill Grant Dysgu Cynulliad oddi wrth y person hwnnw.

19. Pan fo cais wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru am wybodaeth o dan baragraff 18, cânt

gadw'n ôl unrhyw daliad o Grant Dysgu'r Cynulliad hyd nes y bydd y person yn darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu esboniad boddhaol am beidio a chydymffurfio â'r cais.

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

YR ATODLEN Paragraff 3

Myfyrwyr Cymwys

RHAN 1

Dehongli

1.—(1) At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr “aelod o deulu” (“*family member*”) (oni nodir yn wahanol)—

(a) mewn perthynas â gweithiwr y ffin o'r AEE, gweithiwr mudol o'r AEE, person hunangyflogedig y ffin o'r AEE neu berson hunangyflogedig o'r AEE yw—

(i) ei briod neu ei bartner sifil;

(ii) ei ddisgynyddion uniongyrchol neu ddisgynyddion uniongyrchol ei briod neu ei bartner sifil—

(aa) sydd o dan 21 oed; neu

(bb) sy'n ddibynyddion iddo neu i'w briod neu i'w bartner sifil; neu

(iii) perthynas uniongyrchol dibynnol yn ei linach esgynnol neu yn llinach esgynnol ei briod neu ei bartner sifil;

(b) mewn perthynas â pherson cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig Swisaidd y ffin, person hunangyflogedig Swisaidd y ffin neu berson hunangyflogedig Swisaidd yw—

(i) ei briod neu ei bartner sifil; neu

(ii) ei blentyn neu blentyn ei briod neu ei bartner sifil;

(c) mewn perthynas â gwladolyn o'r UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38 yw—

- (i) ei briod neu ei bartner sifil; neu
- (ii) ei ddisgynyddion uniongyrchol neu ddisgynyddion uniongyrchol ei briod neu ei bartner sifil—
 - (aa) sydd o dan 21 oed; neu
 - (bb) sy'n ddibynyddion iddo neu i'w briod neu i'w bartner sifil;
- (d) mewn perthynas â gwladolyn o'r UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38 yw—
 - (i) ei briod neu ei bartner sifil; neu
 - (ii) ei ddisgynyddion uniongyrchol neu ddisgynyddion uniongyrchol ei briod neu ei bartner sifil—
 - (aa) sydd o dan 21 oed; neu
 - (bb) sy'n ddibynyddion iddo neu i'w briod neu i'w bartner sifil;
 - (iii) perthynas uniongyrchol dibynnol yn ei linach esgynnol neu yn llinach esgynnol ei briod neu ei bartner sifil;

ystyr “Ardal Economaidd Ewropeaidd” (“*European Economic Area*”) yw'r ardal a ffurfir gan Wladwriaethau'r AEE;

ystyr “Cyfarwyddeb 2004/38” (“*Directive 2004/38*”) yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 29 Ebrill 2004 ar hawliau dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teuluoedd i symud a phreswyllo'n rhydd o fewn tiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau;

ystyr “Cytundeb y Swistir” (“*Swiss Agreement*”) yw'r Cytundeb rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'i Aelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a'r Conffederasiwn Swisaidd, o'r rhan arall, ar Rydd Symudiad Personau, a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999⁽¹⁾ ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

ystyr “Cytundeb yr AEE” (“*EEA Agreement*”) yw'r Cytundeb ar yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a lofnodwyd yn Oporto ar 2 Mai 1992⁽²⁾ fel y'i haddaswyd gan y Protocol a lofnodwyd ym Mrwsel ar 17 Mawrth 1993⁽³⁾;

ystyr “ffoadur” yw person a gydnabyddir gan Lywodraeth Ei Mawrhydi fel ffoadur o fewn ystyr “*refugee*” yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951 fel y'i hestynnwyd gan y Protocol iddo a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967;

(1) Gorch. 4904.
 (2) Gorch. 2073.
 (3) Gorch. 2183.

ystyr “gweithiwr” (“*worker*”) yw gweithiwr o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu ystyr Cytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd;

ystyr “gweithiwr mudol o'r AEE” (“*EEA migrant worker*”) yw un o wladolion yr AEE sy'n weithiwr, ac eithrio un o weithwyr y ffin o'r AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “gweithiwr y ffin o'r AEE” (“*EEA frontier worker*”) yw un o wladolion yr AEE—

(a) sy'n weithiwr yng Nghymru; a

(b) sy'n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “gwladolyn o'r AEE” (“*EEA national*”) yw un o wladolion un o Wladwriaethau'r AEE ac eithrio'r Deyrnas Unedig;

ystyr “gwladolyn o'r UE” (“*EU national*”) yw un o wladolion un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd;

ystyr “Gwladwriaeth AEE” (“*EEA State*”) yw un o Aelod-wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;

ystyr “person cyflogedig” (“*employed person*”) yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person cyflogedig Swisaidd” (“*Swiss employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson cyflogedig, heblaw person cyflogedig Swisaidd y ffin, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person cyflogedig Swisaidd y ffin” (“*Swiss frontier employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd—

(a) sy'n berson cyflogedig yng Nghymru; a

(b) sy'n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE heblaw'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig” (“*self-employed person*”)—

(a) mewn perthynas â gwladolyn o'r AEE, yw person sy'n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd; neu

(b) mewn perthynas â gwladolyn Swisaidd, yw person sy'n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;

ystyr “person hunangyflogedig o'r AEE” (“*EEA self-employed person*”) yw un o wladolion yr AEE sy'n berson hunangyflogedig, heblaw person hunangyflogedig y ffin o'r AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig Swisaidd” (“*Swiss self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson hunangyflogedig, heblaw person hunangyflogedig Swisaidd y ffin, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr “person hunangyflogedig Swisaidd y ffin” (“*Swiss frontier self-employed person*”) yw gwladolyn Swisaidd—

- (a) sy'n berson hunangyflogedig yng Nghymru;
a
- (b) sy'n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE heblaw'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person hunangyflogedig y ffin o'r AEE” (“*EEA frontier self-employed person*”) yw un o wladolion yr AEE—

- (a) sy'n berson hunangyflogedig yng Nghymru;
a
- (b) sy'n preswyllo yn y Swistir neu yn nhiriogaeth un o Wladwriaethau'r AEE heblaw'r Deyrnas Unedig ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth honno yn yr AEE, yn ôl y digwydd, bob dydd neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros” (“*person with leave to enter or remain*”) yw person (“P” yn y diffiniad hwn)—

- (a) sydd—
 - (i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond, sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw wedi ei hysbysu yn ysgrifenedig gan berson yn gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, y credir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar sail amddiffyniad dyngarol⁽¹⁾ neu ganiatâd yn ôl disgresiwn⁽²⁾, er y bernir nad yw ‘P’ yn gymwys i gael ei gydnabod fel ffoadur; neu

(1) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi amddiffyniad dyngarol yn unol ag adran 11 o'r Rheolau Mewnfudo a wnaed o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971 (p.77).

(2) Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd yn ôl disgresiwn o dan adran 3(1)(b) o Ddeddf Mewnfudo 1971.

- (ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu yn ysgrifenedig gan berson yn gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgrisiwn;
- (b) sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;
- (c) sydd â chyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros heb ddod i ben, neu wedi ei adnewyddu a'r cyfnod yr adnewyddwyd y caniatâd ar ei gyfer heb ddod i ben, neu y mae apêl (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002(1)) yn yr arfaeth mewn perthynas â'i ganiatâd i ddod i mewn neu i aros; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros;

mae i "wedi setlo" yr ystyr a roddir i "settled" yn adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(2);

ystyr "Ynysoedd" ("*Islands*") yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae "rhiant" ("*parent*") yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson a chanddo ofal dros blentyn ac mae "plentyn" ("*child*") i'w ddehongli yn unol â hynny.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, Lloegr, Yr Alban Gogledd Iwerddon neu'r Ynysoedd, o ganlyniad i symud yno o un arall o'r manau hynny er mwyn ymgymryd—

- (a) â'r cwrs presennol; neu
- (b) â chwrs yr ymgymrodd y person ag ef yn union cyn ymgymryd â'r cwrs presennol, gan anwybyddu unrhyw gyfnod o wyliau rhwng y cyrsiau,

i'w ystyried yn berson sy'n preswyllo fel arfer yn y lle y symudodd ohono.

(4) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person ("P" yn yr is-baragraff hwn) i'w drin fel petai'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, neu yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci pe bai P wedi bod yn preswyllo felly oni bai am y ffaith bod—

- (a) P;

(1) 2002 p.41.

(2) 1971 p.77. Mewnosodwyd is-adran (2A) gan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p.61).

- (b) priod neu bartner sifil P;
- (c) rhiant P; neu
- (d) yn achos perthynas uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn P neu briod neu bartner sifil plentyn P,

yn cael, neu wedi bod yn cael, ei gyflogi dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd neu, yn ôl fel y digwydd, y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci.

(5) At ddibenion is-baragraff (4), mae gwaith dros dro y tu allan i Gymru, y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd, neu'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci yn cynnwys—

- (a) yn achos aelodau llynges, byddin neu awyrlu rheolaidd y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o'r lluoedd hynny; a
- (b) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd un o Wladwriaethau'r AEE neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu fel aelodau o'r lluoedd hynny y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir; ac
- (c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu fel aelodau o'r lluoedd hynny y tu allan i'r diriogaeth a ffurfir gan Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci.

(6) At ddibenion yr Atodlen hon, mae ardal—

- (a) nad oedd gynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd neu o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd; ond
- (b) sydd ar unrhyw adeg, cyn neu ar ôl i'r Cynllun hwn ddod i rym, wedi dod yn rhan o'r naill neu'r llall o'r ardaloedd neu o'r ddwy ohonynt,

i gael ei hystyried fel petai bob amser wedi bod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

RHAN 2

Categoriâu

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig

2.—(1) Person sydd, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig—

- (a) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac eithrio drwy fod wedi caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (b) yn preswyllo fel arfer yng Nghymru;

- (c) wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig; a
- (d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), nad oedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (c) wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg amser-llawn.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(4).

3. Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd y ffaith ei fod wedi caffael yr hawl i breswyllo'n barhaol;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig; a
- (d) a oedd, mewn achos pan oedd ei breswyliaid arferol y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg amser-llawn, yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (c).

Ffoduriaid ac aelodau o'u teuluoedd

4.—(1) Person—

- (a) sy'n ffoadur;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers pan gafodd ei gydnabod fel ffoadur; ac
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(2) Person—

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches;

- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; a
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu bartner sifil i ffoadur;
- (b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches, yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw;
- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur ei gais am loches;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers pan gafodd ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig; a
- (e) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd

5.—(1) Person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers pan gafodd ganiatâd i ddod i mewn neu i aros; a
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(2) Person—

- (a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad y gwnaeth y person hwnnw—
 - (i) y cais am loches; neu
 - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgrisiwn, pan na wnaed cais am loches;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly er pan gafodd ganiatâd i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig; a

- (d) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(3) Person—

- (a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros;
- (b) a oedd, ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—
 - (i) y cais am loches; neu
 - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, pan na wnaed cais am loches;yn blentyn i'r person hwnnw neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;
- (c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—
 - (i) y cais am loches; neu
 - (ii) y cais am ganiatâd yn ôl disgresiwn, pan na wnaed cais am loches;
- (d) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswyllo felly ers pan gafodd ganiatâd i ddod i mewn neu i aros yn y Deyrnas Unedig; ac
- (e) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

Gweithwyr, personau cyflogedig, personau hunangyflogedig ac aelodau o'u teuluoedd

6.—(1) Person—

- (a) sydd—
 - (i) yn weithiwr mudol o'r AEE neu'n berson hunangyflogedig o'r AEE;
 - (ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd;
 - (iii) yn aelod o deulu person a grybwyllwyd yn is-baragraff (i) neu (ii);
 - (iv) yn weithiwr y ffin o'r AEE neu'n berson hunangyflogedig y ffin o'r AEE;
 - (v) yn berson cyflogedig Swisaidd y ffin neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd y ffin; neu
 - (vi) yn aelod o deulu person a grybwyllwyd yn is-baragraff (iv) neu (v);

- (b) sydd, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person sy'n gwneud cais am gymorth yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o is-baragraff (1).

7. Person—

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig;
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig; ac
- (c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 12 o Reoliad y Cyngor (EEC) Rhif 1612/68 ar rydd symudiad gweithwyr⁽¹⁾, fel y'i hystynnwyd gan Gytundeb yr AEE.

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswyllo mewn man arall

8.—(1) Person—

- (a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig;
- (b) a oedd yn preswyllo fel arfer yng Nghymru ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn union cyn ymadael â'r Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl preswyllo;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod pan fo tymor cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig yn dechrau mewn gwirionedd;
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig; ac
- (e) a oedd, mewn achos pan oedd ei breswyliaid arferol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg amser-llawn, yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd

(1) OJ Rhif L257, 19.10.1968, t.2 (OJ/SE 1968 (II) t.475).

Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (d).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswyllo—

- (a) os yw'r person hwnnw'n wladolyn o'r Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwydddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir) neu'n berson a chanddo hawl i breswyllo'n barhaol ac sydd ym mhob achos wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwydddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig; neu
- (b) yn achos person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd â hawl i breswyllo'n barhaol, os yw'r person hwnnw'n mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir, y mae'n wladolyn ohoni neu y mae'r person y mae'n aelod o'i deulu yn wladolyn ohoni.

Gwladolion yr UE

9.—(1) Person—

- (a) sy'n wladolyn o'r UE heblaw gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig; a
- (d) a oedd, mewn achos pan oedd ei breswyliaid arferol y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg amser-llawn, yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeiriwyd ato ym mharagraff (c).

(2) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs, a phan fo person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1), bod rhaid bod yn wladolyn o'r UE heblaw gwladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd

gyntaf y cwrs dynodedig, fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

Plant gwladolion o'r Swistir

10. Person—

- (a) sy'n blentyn i wladolyn o'r Swistir ac sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 i Gytundeb y Swistir;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig;
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) a oedd, mewn achos pan oedd ei breswyliaid arferol y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf er mwyn cael addysg amser-llawn, yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswyllo fel arfer y cyfeiriwyd ato yn is-baragraff (c).

Plant gweithwyr o Dwrci

11.—(1) Person—

- (a) sy'n blentyn i weithiwr o Dwrci;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs dynodedig.

(2) Yn y paragraff hwn, ystyr "gweithiwr o Dwrci" ("*Turkish worker*") yw gwladolyn o Dwrci—

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd; a
- (b) sy'n cael, neu sydd wedi cael, ei gyflogi'n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig.